# Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
# Taflen Wybodaeth

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

## Gofyn am Eirda

Fel arfer, mae'r broses o gael eich derbyn ar gwrs yn y coleg yn dibynnu ar gymwysterau academaidd. Gyda chyrsiau mewn Gofal, mae pwysigrwydd meddu ar y nodweddion personol addas hefyd yn ofyniad hanfodol. Rydyn ni felly yn gofyn i chi roi enwau **DAU** ganolwr sy'n gallu dangos eich addasrwydd ar gyfer eich cwrs dewisol mewn gofal.
**DEFNYDDIWCH Y FFURFLENNI AMGAEEDIG AR GYFER CANOLWYR ER MWYN CAEL Y GEIRDAON A DEWCH Â'R FFURFLENNI GYDA CHI AR EICH DIWRNOD CYNTAF – MAE HYN YN ORFODOL.**

## Gwisgo i Greu Argraff

Mae'n bolisi yn yr Ysgol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant fod myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau mewn gofal yn gwisgo Crysau T gyda logo'r Coleg arnynt wrth fynychu lleoliadau gwaith.

Mae nifer o resymau dros y penderfyniad hwn. Yn bwysicach oll, mae'n hyrwyddo diogelwch gan olygu y bydd myfyrwyr NPTC yn adnabyddadwy yn y gweithle, rhywbeth sy'n tawelu meddwl pobl eraill. At hynny mae gwisgo crys T yn osgoi dillad drud personol yn cael eu difrodi yn y gweithle. Yn olaf, mae ymddangosiad personol myfyrwyr yn cael eu gwella wrth wisgo rhywbeth smart a phriodol

**COST:** CRYS T £12
**DEWIS O LIWIAU:** GLAS GOLAU GLAS BRENHINOL
**MEINTIAU:** BACH CANOLIG MAWR X-MAWR XX-MAWR

Yn ystod eich rhaglen sefydlu bydd eich tiwtor cwrs yn trafod prynu'r dillad addas ac mae'n RHAID talu wrth archebu. Bydd ymholiadau yn cael eu hateb yn ystod y cyfnod hwn.